**EITEM AR YR AGENDA: 7**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**20 Mehefin 2016**

**AMCANION DRAFFT GWELLA A LLESIANT 2017/18**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1. Rhoi gwybod i'r Aelodau am waith Gweithgor y Cynllun Gwella a chyflwyno argymhellion y Panel Gweithredol, o'i gyfarfod ar 9 Mai 2016, ynglŷn ag amcanion gwella'r Awdurdod ar gyfer 2071/18 a'r tu hwnt.

## Cefndir

2. Mae'n ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (ATAGC) dan Fesur Llywodraeth Leol 2009 wneud gwaith cynllunio ar gyfer gwella, a bydd angen iddo fod wedi cyhoeddi ei amcanion gwella ar gyfer 2017/18 erbyn 31 Mawrth 2017.

3. Rhaid i'r amcanion gwella fod yn gyson ag o leiaf un o saith o elfennau diffiniedig ym maes gwella. Rhaid i ATAGC osod amcanion gwella bob blwyddyn, ond nid yw hyn yn golygu bod yn rhaid i'r amcanion newid bob blwyddyn nac ychwaith gael eu cyflawni o fewn blwyddyn.

4. Mae ATAGC hefyd yn ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo wneud gwaith datblygu cynaliadwy a gosod a chyhoeddi ei amcanion llesiant cyntaf erbyn 31 Mawrth 2017.

5. Rhaid dylunio amcanion llesiant yr Awdurdod fel ei fod yn cyfrannu orau bosibl at gyflawni pob un o’r saith nod llesiant a ddiffiniwyd:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

6. Mae cyfarwyddyd statudol a gyhoeddwyd yn hybu datblygu cynaliadwy integredig mewn agweddau eraill ar gynllunio corfforaethol fel nad yw cyrff cyhoeddus yn trin y gofyniad i osod amcanion llesiant fel rhywbeth sydd ar wahân i’r gofyniad i osod amcanion eraill ar gyfer y sefydliad.

7. Mae Gweithgor y Cynllun Gwella yn ATAGC wedi cyfarfod bedair gwaith eleni (22 Chwefror, 14 Mawrth, 11 Ebrill, 25 Ebrill) i ddatblygu amcanion gwella a llesiant ar gyfer 2017/18.

## Gwybodaeth

8. Yn ystod cyfarfodydd Gweithgor y Cynllun Gwella, cafodd yr aelodau gyflwyniadau a gwybodaeth am ragolygon ariannol tymor canolig ATAGC, a buont yn ystyried amrediad o opsiynau posibl ar gyfer parhau i ddarparu gwasanaethau tân ac achub fforddiadwy. Yn atodiad A, ceir crynodeb o'r materion a gafodd eu hystyried yng nghyfarfodydd y Gweithgor.

9. Bu’r aelodau’n ystyried yr arbedion a’r gwelliannau i wasanaethau y mae ATAGC eisoes wedi’u gwneud, a’r prosiectau a’r strategaethau y cytunwyd arnynt ond sydd heb eu gweithredu eto; ond roeddent hefyd yn cydnabod y bydd yn rhaid cymryd camau i helpu i sicrhau bod gwasanaethau’n gynaliadwy oherwydd y bydd yna £2.26 miliwn o fwlch yn y cyllid erbyn 2019/20 ac mae’r cronfeydd ariannol wrth gefn yn lleihau.

10. Wrth ystyried y pwysau ariannol a ragwelir a’r amrediad o opsiynau a gostiwyd er mwyn delio â’r pwysau hynny, roedd yr aelodau’n ymwybodol o’r effaith y gallai lleihau’r cyllidebau ei chael ar wasanaethau craidd, diogelwch y cyhoedd, lefelau staffio a chynnal cysylltiadau diwydiannol da.

11. Er eu bod yn cydymdeimlo â’r pwysau ariannol sy’n wynebu’r rhan fwyaf o wasanaethau cyhoeddus, bu’r aelodau’n ystyried y pwysau nad oes modd eu hosgoi o ran costau ar ATGAC dros y tair blynedd nesaf oherwydd chwyddiant cyflogau a phrisiau a pholisïau y mae’r llywodraeth yn eu newid mewn perthynas â phensiynau.

12. Felly, roedd yr Aelodau’n cydnabod na fyddai amcan gwella presennol ATAGC sy’n ymwneud â chynllun ariannol tymor canolig lle mae rhewi’r gyllideb yn egwyddor ganolog yn rhywbeth cynaliadwy.

13. Oherwydd hyn, roedd yr aelodau’n cydnabod y byddai angen newid y strategaeth ariannol i strategaeth sy’n cyfuno tair agwedd: defnyddio ei gronfeydd ariannol wrth gefn; cynyddu cyfraniadau gan yr awdurdodau cyfansoddol tua £1.36 miliwn); a lleihau gwasanaethau a allai fod yn £0.9 miliwn. Byddai’r strategaeth ariannol dair blynedd hon gyda’r Awdurdod tan 2019/20, a byddai’n cynnwys cadw cyllideb wedi’i rhewi yn y ddwy flynedd ddiwethaf o’r tair blynedd hynny.

14. O ran lleihau gwasanaethau, roedd yr Aelodau’n cydnabod y byddai unrhyw leihad o’r fath yn y gwasanaethau’n cymryd amser i’w gweithredu ac felly byddai angen cynllunio’r rhain i ddod yn weithredol erbyn 2019/20.

15. Fel gyda tri amcan gwella presennol arall ATAGC, nid oedd yr Aelodau’n gweld unrhyw reswm dros newid yr rhain, ac roeddent yn cynnig y dylai’r rhain barhau i’r flwyddyn ariannol nesaf.

16. Cafodd y pedwar amcan gwella a llesiant ar gyfer 2017/18 eu hystyried a'u cefnogi gan y Panel Gweithredol ar 9 Mai 2016; maent fel a ganlyn:

   (i) Cynorthwyo i gadw pobl a chymunedau’n ddiogel drwy atal marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau damweiniol mewn cartrefi.

(ii) (NEWYDD) Bydd yr Awdurdod yn mabwysiadu strategaeth ariannol dair blynedd sy’n cyfuno’r defnydd o gronfeydd wrth gefn, cynnydd yn y cyfraniadau ariannol a lleihau gwasanaethau.

(iii) Bydd yr Awdurdod yn ail-falansio’i adnoddau i gyfateb i risg. Bydd yn gweithredu model newydd o ddarparu adnoddau sy’n sicrhau bod o leiaf 20 o griwiau tân wedi’u lleoli strategol yng Ngogledd Cymru ar gael ar adeg o risg cymharol is, a bydd o leiaf 38 ar gael ar adegau o risg cymharol uwch.

(iv) Bydd yr Awdurdod yn ymchwilio i gyfleoedd i amrywio rôl y diffoddwr tân ac i gynnig gwasanaethau ychwanegol i’r cyhoedd yng Ngogledd Cymru.

17 Fel yn y blynyddoedd blaenorol, byddai cyfnod o ymgynghori ar yr amcanion drafft hyn yn rhoi cyfle i’r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol eraill i gyflwyno eu safbwyntiau i’w hystyried gan yr Awdurdod erbyn Mawrth 2017.

**Argymhelliad**

18 Bod yr Aelodau’n cymeradwyo’r pedwar amcan drafft yn y rhestr uchod ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol cyn eu mabwysiadu'n ffurfiol erbyn Mawrth 2017.

**Crynodeb o'r materion y bu Gweithgor y Cynllun Gwella yn eu hystyried yn ei gyfarfodydd ar 22 Chwefror, 14 Mawrth, 11 Ebrill a 25 Ebrill**

1 Bu'r Aelodau'n ystyried yn fanwl iawn y cwestiwn o ba ostyngiadau i wasanaethau, os o gwbl, a fyddai'n cefnogi'r dasg o gyrraedd y targed arbedion. Roeddent yn cydnabod y bydd lleihau gwasanaethau, y tu hwnt i'r rhai sydd eisoes wedi cael eu gweithredu, yn golygu peth risg i'r cyhoedd ac i'r Awdurdod. Ni allent anwybyddu, er hynny, y problemau ariannol difrifol y bydd yr Awdurdod yn eu hwynebu yn y pum mlynedd nesaf a theimlent fod yn rhaid iddynt osod y risg mewn perthynas â'r adnoddau sydd ar gael.

2 Mae'r strategaeth y cytunwyd arni yng Ngweithgor y Cynllun Gwella, ac a gefnogwyd wedi hynny gan y Panel Gweithredol, yn arwain at ddiffyg o £900k y bydd yn rhaid ei ganfod drwy leihau gwasanaethau. Yn anochel, bydd y gostyngiadau hyn yn gorfod dod drwy ostwng nifer swyddi gan mai cyflogau yw 70% o gyllideb refeniw'r Awdurdod.

3 Atgoffwyd yr Aelodau am gyngor y Prif Swyddog Tân, sef bod gostyngiadau yn nifer swyddi swyddogion gweithredol drwy ddau ail-strwythuriad, yn 2011/12 ac yn 2015/16 (gan arbed £700k), wedi gostwng nifer y swyddogion i'r lefel isaf sy'n ofynnol i weithredu'r system rheoli digwyddiadau mewn modd diogel. Felly, ni ellir cael arbedion pellach o'r ffynhonnell honno heb beri risgiau diogelwch i'r staff pan fyddant mewn digwyddiadau ar yr ochr weithredol.

4 Roedd yr Aelodau'n gyndyn o leihau rhagor ar y ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer gwaith diogelwch ac atal tanau, sef ffigwr sydd wedi gostwng £185k ers 2011/12. Nid yw'r ffigwr hwn yn cymryd i ystyriaeth y gostyngiad sylweddol yn y grant diogelwch cymunedol gan Lywodraeth Cymru yn 2015/16. Mae gwaith diogelwch y Gwasanaeth wedi cyfrannu'n fawr at ostyngiad yng ngweithgaredd yr ochr weithredol, yn enwedig yn nifer y tanau eiddo, sef 50% dros y degawd diwethaf. Yn yr un cyfnod, mae nifer y marwolaethau oherwydd tanau mewn cartrefi wedi gostwng yn sylweddol.

5 Ers 2011/12, mae'r gyllideb ar gyfer staff cefnogol wedi gostwng £360k er gwaethaf yr effaith ar gapasiti sy'n cael ei achosi gan fwy o reoleiddio a deddfwriaeth megis Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Pensiynau 2014.

6 Ystyriwyd opsiwn i drosglwyddo gwaith ystafell reoli'r Gwasanaeth i'r cyfleuster rheoli ar y cyd a sefydlwyd yn ddiweddar yn Ne Cymru. Ar hyn o bryd, mae costau cyflogau fymryn dros £1 filiwn ond byddai'r arbediad hwn yn cael ei osod yn erbyn y gost o ddarpariaeth arall na fyddai, efallai, yn y dadansoddiad terfynol, yn ddim rhatach. Teimlai'r Aelodau bod yr arbedion prin a ddeuai, yr effaith ar ddarparu gwasanaethau a gweithio mewn partneriaeth, ynghyd â'r goblygiadau ar gyfer staff presennol yr ystafell reoli, yn golygu nad oedd yr opsiwn yma yn un dymunol.

7 Yn gyndyn, felly, daeth yr Aelodau i'r casgliad mai'r unig ran o'r gyllideb lle gellid canfod arbedion digon mawr oedd yn y gorsafoedd/peiriannau gweithredol a'r staff a gyflogir ynddynt.

8 Felly, roedd yr Aelodau'n wynebu'r penderfyniad anhepgor i leihau'r gyllideb drwy gael gwared ar beiriannau, gorsafoedd neu gyfuniad o'r ddau er mwyn arbed £900k. Mae'r ffigwr hwn yn cyfateb naill ai i 8-10 o orsafoedd tân ar gael yn ôl y galw (RDS) neu un peiriant â chriw shifftiau ar orsaf dân amser cyflawn. Bu'r Aelodau hefyd yn ystyried cael gwared ar rai, neu bob un, o'r peiriannau dyletswydd RDS ar yr wyth o orsafoedd amser cyflawn.

9 Ar ôl cael gwybodaeth am weithgarwch gweithredol, dulliau gweithio ac effaith pob un o'r camau uchod, daeth yr Aelodau i'r casgliad nad oeddent yn dymuno mynd ar ôl strategaeth a fyddai'n cael gwared yn llwyr ar ofal tân o unrhyw gymuned. Hefyd, roedd yr Aelodau'n cydnabod bod llawer o orsafoedd tân gwledig yn gartref i weithgareddau cymunedol pwysig eraill, ac yn lleoliad a ddefnyddir gan wasanaethau brys eraill, a phetai'r orsaf yn cau byddai hynny'n effeithio'n andwyol ar y rheini. Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn arwain at ddiswyddiadau gorfodol, ac roedd yr Aelodau'n awyddus i osgoi hynny. O ganlyniad, diystyriwyd yr opsiwn i gael gwared ar 8-10 o orsafoedd y system RDS.

10 Nid aethpwyd ar ôl opsiwn i gael gwared ar beiriannau o orsafoedd criw dydd, nac ychwaith y gorsafoedd criw shifftiau sydd ag un peiriant amser cyflawn, a hynny oherwydd mai'r effaith fyddai cael gwared ar unrhyw ofal amser cyflawn ym mhrif ganolfannau poblogaeth Gogledd Cymru ar adegau pryd y gwelwyd bod y risg mwyaf.

11 Mae dadleuon tebyg yn berthnasol i opsiwn i newid y system griwio yn y Rhyl a Glannau Dyfrdwy o shifftiau 24 awr i griwiau dydd heblaw, yn yr opsiwn yma, na fyddai newid y gofal yn effeithio ar yr adegau pryd mae'r risg mwyaf, ond fe fyddai'n effeithio ar y gofal y tu allan i'r adegau hynny. Cafodd yr Aelodau hefyd eu cynghori gan y Prif Swyddog Tân fod y system criw dydd yn rhwystr i hyblygrwydd o ran lleoli'r gweithlu, yn perswadio staff i beidio â mynd am ddyrchafiad ac mae'n creu problemau eraill i'r aelodau o'r staff. Roedd o'r farn y dylai'r Aelodau ystyried yn ddifrifol y materion hyn cyn cynyddu nifer y gorsafoedd sy'n gweithredu'r system griwio hon. Penderfynodd yr Aelodau beidio â bwrw ymlaen â'r opsiwn yma ar hyn o bryd.

12 Nid aethpwyd ymlaen i gael gwared ar gymorth y system RDS o bob un o'r gorsafoedd amser cyflawn oherwydd teimlai'r Aelodau fod y peiriannau hyn yn darparu cymorth ychwanegol hanfodol i'r gorsafoedd lle maent wedi'u lleoli, yn enwedig pan fo'r orsaf yn orsaf criw dydd ac ar statws RDS. Hefyd, yr arbedion mwyaf y gellid eu cael drwy'r opsiwn yma fyddai mymryn dros £700k, sy'n golygu y byddai'n rhaid ei gyfuno â mentrau eraill i arbed arian. Roedd y ffactorau hyn, ynghyd â'r sefyllfa ddiswyddiadau a amlinellwyd uchod, yn golygu nad oedd yr opsiwn yma yn bosibl, ym marn yr Aelodau.

13 Cafodd yr Aelodau ddadansoddiad o weithgarwch gweithredol o ran pob peiriant amser cyflawn yng Ngogledd Cymru. Roedd gostyngiad cyson a sylweddol yn nifer y digwyddiadau yn amlwg i'w weld ymhob lleoliad. Gan gofio mai Wrecsam yw'r unig orsaf dân yng Ngogledd Cymru sydd â dau beiriant amser cyflawn (gyda chymorth peiriant RDS), gofynnwyd i'r swyddogion ddarparu asesiad o'r effaith ar ymateb y Gwasanaeth o gael gwared ar un peiriant amser cyflawn.

14 Roedd yr Aelodau'n cofio hefyd y byddai polisi newydd y Gwasanaeth ar fynd at alwadau gan larymau tân awtomatig, a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2015, yn debygol o effeithio ar nifer yr adegau y gelwir ni allan ac yn gostwng y nifer hwnnw'n sylweddol. Cafodd yr Aelodau wybod mai 24 fyddai nifer y swyddi a fyddai'n cael eu tynnu ymaith ar ôl cael gwared ar beiriant amser cyflawni, ac o ystyried y trosiant a ddisgwylir yn y 2-3 blynedd nesaf, gellid sicrhau'r gostyngiad hwn heb angen diswyddo. Byddai cael gwared ar beiriant amser cyflawn yn gadael yr orsaf â'r un cyflenwad â'r Rhyl a Glannau Dyfrdwy. Dywedodd y Swyddogion y byddai angen cryfhau'r trefniadau ar gyfer staff y system RDS yn Wrecsam ei hun, Johnstown a'r Waun er mwyn symud ymlaen â'r opsiwn yma. Roedd yr Aelodau hefyd yn cadw mewn cof beth fydd effaith y newidiadau sydd i ddigwydd yn ardal Wrecsam dros y blynyddoedd nesaf, fel agor carchar newydd a chynnydd yn nifer y tai.

15 Bu'r Aelodau'n ystyried yr opsiwn yma'n ofalus, a chan nodi'r materion a godwyd, fe'i gwnaethant yn ofynnol i'r Gwasanaeth ymgynghori ynghylch cael gwared ar un peiriant amser cyflawn o Wrecsam yn 2019/20 fel rhan o'r broses ymgynghori flynyddol yn nhymor yr hydref.